
AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Synod Cymru

# Gwyliedydd

Rhifyn 232 Hydref – Tachwedd 2021



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Fel erioed, yn rhifyn cyntaf y flwyddyn Fethodistaidd newydd, mae'n bleser mawr cyfarch holl ddarllenwyr y *Gwyliedydd* a dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Dechreuodd ein blwyddyn eglwysig newydd ar Fedi 1af, felly bydd digon wedi digwydd yn barod, mae'n debyg, cyn i chi weld y geiriau yma, ond maen nhw'n ddilys o hyd ac rwy'n addo gweddïo drosoch i gyd yn ystod 2021-22. Boed i Dduw eich bendithio chi a'ch cadw chi.

**Nawfed flwyddyn**

Mae'n anodd gen i gredu mai dyma fy nawfed flwyddyn fel Cadeirydd Synod Cymru. Cefais fy mhenodi am chwe blynedd i ddechrau ym Medi 2013, ac ym Medi 2019 dechreuais ar estyniad o bum mlynedd. Mae'n golygu, erbyn i'r rhifyn hwn gael ei gyhoeddi, y bydd gen i lai na thair blynedd cyn symud ymlaen, fel rydym ni weinidogion yr Eglwys Fethodistaidd yn arfer gwneud yn rheolaidd. Dyna rywbeth i roi ffocws i'r meddwl! Pan oeddwn i'n blentyn, buasai tair blynedd wedi teimlo'n gyfnod hir ofnadwy, ond erbyn hyn dydy o ddim yn swnio fel llawer o amser o gwbl. Gawn ni weld os bydd yn hedfan neu beidio!

**Beth yw eich gweledigaeth ar gyfer Synod Cymru?**

Wrth i mi feddwl am y profiad, naw mlynedd yn ôl, o gychwyn yn y penodiad hwn, cofiaf fod llawer o bobl wedi gofyn i mi yn ystod y misoedd cynnar, "Beth yw eich gweledigaeth chi ar gyfer Synod Cymru?" Roedd yn rhaid imi ateb nad oedd gen i weledigaeth fy hunan oherwydd beth oedd yn bwysig oedd gweledigaeth Duw ar gyfer y Synod. Roeddwn i am gadw meddwl agored, a gwrando a dysgu a gweddïo, er mwyn ceisio'r weledigaeth hon a gweithio efo hi. Person petrusgar ydw i, yn y bôn: un ydw i sy'n meddwl a gweddïo a chnoi cil a phrofi unrhyw beth pwysig cyn i mi gymryd hyd yn oed cam bach tuag ato. Credaf yn gryf ei bod yn ddoeth gwthio drws yn araf a gofalus ac, os bydd yn dechrau agor, dyna arwydd i wthio tipyn bach mwy. Os nad yw'r drws yn agor, a'ch bod wedi gweddïo am arweiniad Duw ac yn ceisio gwneud ei ewyllys, mae'n arwydd i drïo drws arall. Diolch byth, efo'n Duw ni, mae yna ddrws arall, a chyfle arall, a dechreuad newydd arall bob amser. Dydy'r broses hon o geisio ewyllys Duw ddim yn un gyflym, ac mae amser yn gallu bod yn brin, ond yn fy mhrofiad i mae'n broses sy'n gweithio ac mae Duw yn anrhydeddu calon lân sy'n ceisio ei ewyllys, ac fe fydd yn drugarog wrthym pan fyddwn yn methu.

Yn ôl yr Ysgrythurau, "Lle na cheir gweledigaeth, bydd y bobl ar chwâl" (Diarhebion 29:18). O feddwl yn ôl i'r adeg honno naw mlynedd yn ôl, rwy'n meddwl rŵan y dylwn i fod wedi gofyn yr un cwestiwn i'r rhai oedd yn holi, sef "Beth yw eich gweledigaeth *chi*?" Buasai wedi bod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i Gadeirydd newydd glywed ymateb aelodau'r Synod! (Mae ôl-ddoethineb yn beth ffantastig, onid yw?) Ym mywyd Synod Cymru, rwy'n dewis credu ein bod ni ble rydym ni o ran gweithio tuag at y dyfodol oherwydd inni geisio ewyllys a gweledigaeth Duw, a bod Duw wedi ein harwain. Er hynny, mae'n gwestiwn i bob un ohonom ni fel Cristnogion ac fel capeli: Beth yw fy ngweledigaeth i? Beth yw ein gweledigaeth ni? Mae'n gwestiwn i ni wrth i ni ddysgu sut i fyw mewn cyfnod ôl-Covid ond hefyd wrth i ni ddysgu sut i fyw efo Covid. Beth yw eich gweledigaeth chi, felly, ar gyfer eglwys Iesu Grist a'n cymdeithas a'r byd, wrth i ni edrych tua'r dyfodol?

**Cydweithio a chyfathrebu**

I mi, mae thema (neu themâu!) Synod Cymru ar gyfer 2019-22 yn berthnasol. Y themâu a ddewisodd cyfarfod y Synod i ni yn ôl yn 2019 oedd cydweithio a chyfathrebu. Prif weledigaeth pob Cristion, wrth reswm, yw dyfodiad teyrnas Dduw yn ei holl gyflawnder. Wedi'r cwbl, dyna beth rydym ni'n gweddïo, bob amser rydym ni'n dweud Gweddi'r Arglwydd. Cyhoeddodd Iesu deyrnas Dduw, ac yn ei gwmni rydym yn gwylio, gweddïo a gweithio drosti. Rhai o'r camau ar y ffordd yw cydweithio â phwy bynnag sy'n barod i weithio efo ni, a chyfathrebu newyddion da y deyrnas mewn gair a gweithred i bwy bynnag sy'n barod i'w derbyn. Wrth i ni geisio gwneud ein gweledigaeth yn real (neu, yn hytrach, gweledigaeth Duw!), bydd llawer cyfle'n codi i gydweithio a chyfathrebu, ac efallai mewn ffyrdd annisgwyl. Ein rhan ni yw bod yn barod, a chadw meddwl agored i Ysbryd Duw sy'n chwythu lle y myn. Blwyddyn Newydd Dda i chi, a phob bendith!

**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd**

Bydd Jennie'n ymweld â'r mannau isod yn y ddau fis nesaf, yn unol wrth gwrs â rheoliadau Covid ar yr adeg dan sylw. Boed bendith Duw ar ei gwaith ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

***Hydref***

3 Morgannwg
10 Glannau Maelor
17 Dyffryn Clwyd
24 Gwyliau
31 Ceredigion a Meirionnydd

***Tachwedd***

7 Llanrhaeadr
14 Gwynedd a Môn
21 Dyffryn Conwy
28 Ceredigion a Meirionnydd






Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 232**
**HYDREF – TACHWEDD 2021**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk


**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
5 TACHWEDD 2021

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr: Paul Gauguin, Cŵn y rhedeg trwy ddôl

## Rhoddion a Thanysgrifiadau

Diolchwn yn gynnes iawn unwaith eto am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd.*

| | |
|---|---|
| • Islwyn Hughes, Llangoed | £ 25-00 |
| • Angharad Evans, Porthaethwy | £ 05-76 |
| • Er cof annwyl am y diweddar Barchedig a Mrs O. E. Evans, gan Angharad, Geraint, Bronwen a Dewi | £ 30-00 |
| • Y Diacon Stephen Roe, Swindon | £ 25-00 |
| • Capel Wesle Llanarmon D C. | £ 20-00 |
| • Eglwys Fethodistaidd Unedig Colwyn | £300-00 |
| • Capel Pisgah, Rhiwlas | £ 50-00 |
| • Dienw | £ 50-00 |
| • Capel Shiloh, Tregarth | £ 50-00 |
| • Capel Saron, Bethel | £ 50-00 |
| Cyfanswm | £605-76 |



## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

| | |
|---|---|
| Gwyn a Bronwen Evans | £ 20.00 |
| Eglwys Gymraeg Sant Paul, Aberystwyth | £ 25.00 |
| Ebeneser, Treuddyn | £ 20.00 |
| Salem, Pentre Helygain | £ 40.00 |
| Eglwys Fethodistaidd Unedig Colwyn | £150.00 |
| Horeb, Croesoswallt | £100.00 |

Anfonwyd cyfanswm o £355.00 yn enw Synod Cymru.

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.
Marc a Margaret
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
☎ 01978 756717 ✉ cwrteden@gmail.com

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Ganwyd fy nhaid, George Roberts (1874-1960) yn yr Wyddgrug. Roedd ei dad, Hugh Roberts yn saer maen ac yn un o ddisgynyddion Robert a Marged Roberts, Caellin, Rhyd-y-foel a fu, gydag eraill, yn gyfrifol am yr achos Wesleaidd cyntaf yn y pentref hwnnw. Rwy'n cofio Taid yn dweud ei fod wedi gweld Daniel Owen yn aml yn yr Wyddgrug. Bu Taid yn gweithio am gyfnod ym mhwll glo'r Parlwr Du cyn symud i fod yn was ar ffermydd yn ardal Bodfari. Ymhen amser symudodd i Lysfaen gan weithio i Gyngor Bae Colwyn fel garddwr ac yna at Gwmni ICI yn chwarel galch Raynes, Llanddulas. Cafodd oriawr aur gan y cwmni yn 1939 ar achlysur ei ymddeoliad ar ôl 35 mlynedd o weithio.

Rwy'n credu bod gan Taid ddau frawd a dwy chwaer, ond ei berthynas enwocaf oedd y Parchedig Lewis Valentine. Roedd Mary Roberts, mam Valentine yn un o ddisgynyddion teulu Caellin. Byddai Valentine yn ymweld â Taid pan fyddai'n pregethu yn Nhabor, capel Bedyddwyr Llysfaen. Clywais sôn hefyd bod John Herbert Roberts (Barwn Clwyd) yn berthynas i Taid ond nid oes gennyf brawf o hynny. John Roberts, A.S. (1835-94), tad y Barwn oedd yr un a gyflwynodd Fesur Cau Tafarnau ar y Sul yng Nghymru yn 1881.

Mae hanes fy nhaid a'i deulu yn fylchog ac yn cymharu'n wael iawn â gallu trigolion Cymru o'r 12fed ganrif ymlaen i olrhain eu tras yn ôl i'r 7fed neu'r 9fed ach. Ond os am weld achau yn rhychwantu canrifoedd lawer dylid troi at yr Hen Destament i ddarllen achau Noa yn Genesis 10 neu Ruth 4. Pencampwr yr achau yw awdur Llyfr Cyntaf y Cronicl a lenwodd 8 pennod yn rhestru pawb o Adda hyd deulu'r brenin Saul. Mae Mathew yn agor ei efengyl gyda llinach Iesu Grist a Luc yn cynnwys ei fersiwn ef ym mhennod 3. Yr hyn a wna'r achau, yn arbennig rhai'r Testament Newydd, yw clymu pawb ohonom yn aelodau o Deulu Ffydd drwy'r berthynas sydd gennym â'r Arglwydd Iesu Grist. Trwy ei berthynas ef a'i Dad nefol rydym oll yn aelodau o Deulu Duw.

Llawlyfr Teulu Duw yw'r Beibl a rhwng ei gloriau fe gawn reolau sy'n gymorth i fyw bywyd llawn yn ôl y patrwm a osodwyd i ni gan Iesu Grist. Ond er bod gair ac ewyllys Duw i'w ganfod yn y Beibl, mae'n rhaid osgoi'r demtasiwn o droi'r Llyfr Sanctaidd yn ddelw i'w addoli. Duw yw gwrthrych pob addoliad a'r ffordd ato yw trwy Iesu Grist.

Yn naturiol mae Cristnogion wedi parchu'r Beibl a'i gynnwys gyda llawer yn dal y dylid derbyn popeth a welir ynddo yn llythrennol heb gwestiynu dim. Mewn cyfnod lle mae ffwndamentaliaeth nid yn unig yn creu helynt rhwng Cristnogion ond hefyd yn dod yn agwedd amlwg mewn crefyddau eraill, oni ddylem oedi a gofyn a yw hi'n ddoeth er enghraifft i ddysgu mai awdur Genesis sydd agosaf at y gwir am y creu yn hytrach na gwyddonwyr ein dyddiau ni.

Wyddom ni ddim pwy oedd awdur Genesis ond mae'n amlwg ei fod yn wynebu her fawr wrth geisio ateb cwestiynau pobl gyntefig ynglŷn â bodolaeth y byd a bywyd yn gyffredinol. Syniadau'r hen fyd oedd ganddo a dull yr hen fyd a ddefnyddiodd gan ateb ar ffurf myth. Cynnyrch y dychymyg yw'r mythau ac mae'r pwerau a welir ar waith ym myd natur yn cael eu disgrifio fel personau a duwiau. Gan ei fod yn cael ei ddylanwadu gan ddiwylliant y dwyrain canol, nid yw'n syndod iddo fabwysiadu rhai o fythau Babylon a'r Aifft yn ei waith gorchestol. Rhaid pwysleisio mai defnyddio'r mythau a wnaeth fel cefnlen gan fod seiliau ei syniadau yn deillio o'i gefndir Hebreig a'r weledigaeth mai un Duw sy'n llywodraethu dros y cyfan. Ateb diwinyddol sydd ganddo i'r holl gwestiynau ac nid dehongliad gwyddonol o fodolaeth mater a'r greadigaeth.

Ers canrifoedd bu ysgolheigion amlycaf yr Eglwys yn ymarfer y wyddor a ddisgrifir heddiw fel beirniadaeth Feiblaidd. Mae hi yn un astrus ac amlweddog, ond yn ei hanfod yr hyn a wneir yw defnyddio dulliau gwyddonol i astudio'r dogfennau hynafol er mwyn dod i ddealltwriaeth well o'u cynnwys a'u harwyddocâd. Heddiw mae dulliau fforensig yn datgelu gwybodaeth newydd a fu'n guddiedig i ysgolheigion y gorffennol. Gan nad yw llawysgrifau gwreiddiol y Testament Newydd wedi goroesi, mae astudiaeth gyfoes yn edrych ar y deunydd cynharaf sy'n bod yn y Roeg a'u cymharu â chyfieithiadau o ieithoedd eraill megis Lladin a Syrieg. Maes toreithiog arall yw gweithiau pobl fel Jerom ac Awstin lle ceir dyfyniadau o'r llawysgrif Roeg oedd yn eu meddiant. Mae oddeutu 30,000 o ddyfyniadau yng ngwaith Awstin ac mae'r cyfan o werth amhrisiadwy wrth geisio ail greu'r Testament Newydd Gwreiddiol.

Elfen arall o waith yr ysgolheigion yw edrych ar sut daeth yr hyn a oedd yn wreiddiol ar lafar yn ddogfen orffenedig. Elfen ddiddorol ond astrus yw penderfynu a oedd gan Marc lawysgrif swmpus o ddywediadau Iesu Grist wrth iddo gyfansoddi'r Efengyl, ond sydd bellach ar goll. Tasg anodd arall yw penderfynu trefn cyfansoddi'r Efengylau. Efallai mai'r darganfyddiad pwysicaf a wnaed gan yr ysgolheigion yw mai diwinyddion oedd yr Efengylwyr yn hytrach na haneswyr.

Dylai'r Eglwys heddiw fod yn ddiolchgar bod ysgolheigion newydd yn barod i chwilio'r Ysgrythurau ac ehangu ein gwybodaeth am y Llyfr sy'n datguddio Duw i Deulu'r Ffydd. Trwy eu hymdrechion fe allwn weld ein bod yn nhras saint yr oesoedd ac mewn ystyr real iawn, yn Blant i Dduw. Mae'r DNA Cristnogol yn ymestyn ymhell yn ôl a'n braint a'n dyletswydd yw sicrhau bod yr etifeddiaeth yn cael ei chyflwyno i'r genhedlaeth nesaf. Y bobl bwysicaf ar ein coeden deuluaidd yw ein holynwyr.





# "Pwy dych chi'n ddweud ydw i?" (Mathew 16:15, beibl.net)

gan y Parchedig Eirlys Gruffydd-Evans

Iesu o Nasareth ofynnodd y cwestiwn a hynny yng Nghesarea Philipi. Roedd wedi mynd yno ar daith o Galilea i gael seibiant neu wyliau bach gyda'i ddisgyblion. Roedd eu hamser gyda'i gilydd yn dirwyn i ben yn gyflym a chysgod y groes ar y llwybr. Cymerodd rai dyddiau iddynt gerdded y pum milltir ar hugain o Galilea i Cesarea Philipi, oedd yng ngogledd y wlad ar y ffin â Syria wrth droed mynydd Hermon. Mae Hermon yn hawdd i'w weld ymhell cyn cyrraedd ato gan fod ei eira gwyn yn ymddangos yn glir yn erbyn yr awyr las am fisoedd lawer bob blwyddyn. Dyma, yn ôl rhai, yw safle'r Gweddnewidiad er bod eraill yn ffafrio Mynydd Tabor sy'n codi bron i ddwy fil o droedfeddi uwchben gwastadedd Jesreel i'r de o Galilea.

Pam felly fod ar Iesu angen seibiant? Gwyddai beth oedd byw gyda straen a phwysau yn ddyddiol. Bob tro y byddai'n siarad yn gyhoeddus gwyddai fod ysbiwyr yr Archoffeiriad a'r Phariseaid yn gwrando arno er mwyn cael rhywbeth i'w ddefnyddio yn ei erbyn. Yna roedd pwysau'r dyrfa – y cleifion oedd yn gofyn am iachâd, yn erfyn iddo drugarhau wrthynt. Trodd ei frodyr a'i chwiorydd eu cefnau arno oherwydd eu bod yn credu ei fod wedi gwallgofi fel ei gefnder Ioan Fedyddiwr, ac roedd trigolion Nasareth wedi dangos yn glir eu gwrthwynebiad iddo. Roedd angen yn awr iddo wneud yn siŵr fod ei ddisgyblion yn gwybod pwy ydoedd mewn gwirionedd a beth oedd ystyr ei fywyd – a'i farwolaeth, maes o law. Ond pam eu llusgo'r holl ffordd i Cesarea Philipi? Yma, ger hen ddinas Dan, yr



adeiladodd Herod Fawr deml i anrhydeddu Cesar Awgwstws yn y flwyddyn 19 Cyn Crist. Yn ei ewyllys gadawodd yr ardal i'w fab Philip i'w llywodraethu ar ei ôl. Adeiladodd hwnnw ddinas Cesarea i glodfori'r Ymerawdwr Awgwstws, gan ragori ar waseidd-dra ei dad ac ychwanegu ei enw ef ei hun ati. Gwnaeth hyn er mwyn gwahaniaethu rhyngddi a dinas hardd Cesarea a adeiladodd Herod Fawr ar lan y môr rhyw chwe deg milltir i'r gogledd-orllewin o Jerwsalem.

Ymhell cyn dyddiau Herod roedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid wedi rhyfeddu at harddwch y lle. Yma, o dan gysgod craig uchel, roedd ogof ac ynddi bwll o ddŵr na allai neb fesur ei ddyfnder – pwll diwaelod. Credent mai dyma'r fynedfa i Hades sef uffern yr hen fyd paganaidd. Yma addolid y duw Pan, duw natur a ffrwythlondeb ar ffurf bwch gafr gorniog, a galwyd y lle yn Panias. Credir bod anifeiliaid yn cael eu haberthu i Pan drwy eu taflu i'r pwll dŵr a bod pob amrywiaeth o weithgareddau pechadurus a rhywiol yn digwydd yma. Yn sicr nid oedd yn lle addas i Iddewon parchus fynd iddo. Ac eto dyma lle roedd tarddle Afon Iorddonen ac i'r fan hon y mentrodd Iesu arwain ei ddisgyblion.

Heddiw mae'r lle yn barc cenedlaethol a'r enw arno yw Banias a'r Iddewon yn heidio yno i wylio'r rhaeadrau a'r dŵr rhedegog. Cafodd y Parchedig Eleri Edwards, Manceinion a minnau'r fraint o fynd yno yn 2012. I bob Cristion mae'n lle ag iddo arwyddocâd arbennig. Ger y deml i'r Ymerawdwr a addolid fel duw ac yn ymyl ogof Pan, duw'r paganiaid, y gofynnodd Iesu i'w ddisgyblion "'Pwy y mae pobl yn dweud yw Mab y Dyn?'" Yn eu hateb iddo enwodd y disgyblion Ioan Fedyddiwr, Elias, Jeremeia neu un o'r proffwydi. "A chwithau," meddai wrthynt, "Pwy meddwch chwi ydwyf fi?" Ateb pendant Pedr oedd "Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw." Nid duwiau ffals y byd paganaidd na duwiau ffug yr Ymerodraeth Rufeinig, oedd â'u temlau i'w gweld mor glir o'u cwmpas, ond Mab y Duw byw. Pa fangre arall fyddai'n gefndir mor addas i lawenydd Iesu o glywed ateb Pedr? Roedd y pysgotwr garw o Gapernaum wedi llawn ddeall ac amgyffred pwy oedd yr Iesu y bu yn ei ddilyn cyhyd. Pa well lle i ddatgan fod yr eglwys, a gâi ei sefydlu o dan arweiniad Pedr, yn mynd i goncro paganiaeth a militariaeth? "Gwyn dy fyd, Simon fab Jona, oherwydd nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn i ti ond fy Nhad, sydd yn y nefoedd." Datguddiad Pedr fyddai sylfaen yr eglwys. Y datguddiad mai Iesu yw gwir Fab Duw.

Ac yntau'n sefyll ger yr ogof oedd yn fynedfa i uffern yr hen fyd a theml i'r Ymerawdwr Rhufeinig, byddai'r graig anferth yr adeiladwyd Cesarea Philipi arni yn union y tu ôl i Iesu. Mae'r graig yn gan troedfedd o uchder a phum can troedfedd o led. Does rhyfedd felly iddo edrych ar y graig ac yna troi at Pedr a dweud wrtho: "Ac rwyf fi'n dweud wrthyt mai ti yw Pedr ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau Hades y trechaf arni." Fel y gwyddom ystyr Pedr yw craig, ac roedd Iesu'n chwarae ag ystyr yr enw.

Na, nid Pedr fel person yw'r graig, er iddo ddod yn arweinydd yr eglwys ac yn esgob cyntaf Rhufain, ond yn hytrach y datguddiad a gafodd Y gred mai Iesu yw Mab y Duw byw yw'r graig yr adeiladwyd ein ffydd arni. Dyma'r graig sydd dan ein traed ninnau heddiw, yng Nghymru a thrwy'r byd yn yr unfed ganrif ar hugain.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Sant Paul, Aberystwyth

**ARDAL NEWYDD CEREDIGION A MEIRIONNYDD**
O ddechrau'r flwyddyn gyfundebol newydd mae Ardal Ceredigion wedi uno gydag Ardal Glannau Meirion a Dyfi. Cafodd rhai o aelodau'r ddwy Ardal gyfarfod yn Aberystwyth yn ystod mis Gorffennaf er mwyn inni ddod i adnabod ein gilydd. Yn anffodus oherwydd anhwylder nid oedd modd i Arweinydd yr Ardal newydd, sef y Chwaer Eluned Williams, fod yn bresennol ond daeth y Parchg Ddr Jennie Hurd atom a chawsom amser da a defnyddiol. Ers hynny mae'r Chwaer Eluned wedi mynd ati i drefnu Plan i ni hyd ddiwedd mis Rhagfyr.

**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN

### Tabernacl, Llanfyllin

**HUFEN IÂ I BAWB**
Petaech chi wedi bod yn y Tabernacl ar Orffennaf 25ain, byddech wedi cael hufen iâ am ddim ar ddiwedd yr oedfa! Darren a Siân Mayor oedd yn arwain y gwasanaeth a'r thema oedd 'Beth sy'n ein gwneud yn hapus'. Gan fod priodas ddiemwnt eu hewythr a'u modryb, Tom a Mair Ellis, yr wythnos ganlynol, roedd cyfle i ddathlu hynny hefyd drwy gael sioe sleidiau o'r cwpl hapus. Addas iawn oedd cael hufen iâ i ddathlu'r achlysur. Diolch, Darren!

**PRIODAS AUR**
Llongyfarchiadau i Roger a Linda Davies ar achlysur eu priodas aur ar 11eg o Fedi. Dymuniadau gorau i'r ddau am flynyddoedd hapus eto gyda'i gilydd.

**LLWYN TEG**
Bellach mae Mrs Margaret Blainey wedi cartrefu yn Llwyn Teg ac yn siŵr o fod yn edrych ymlaen at gael gweld ei ffrindiau pan fo modd. Cofion atoch chithau, Margaret.

**PRIODASAU'R HAF**
Yng Nghapel y Tabernacl priodwyd Sarah Ellis, Fferm y Pwynt a Tom Vaughan o Gegidfa, gyda gwledd i ddilyn ar gaeau cartref Sarah. Llongyfarchiadau iddynt a phob dymuniad da. Bu hefyd i Gerallt Francis, Penllwyn ac Emma Watkins, Plas Elltyn briodi yn Eglwys Bwlch y cibau, gyda gwledd ar gaeau Plas Elltyn. Dymuniadau gorau iddynt hwythau yn eu bywyd priodasol.

**CYDYMDEIMLO**
Mae ein cydymdeimlad dwysaf gydag Alwenna Evans, a gollodd ei phriod Cledwyn, mor annisgwyl ddiwedd Gorffennaf. Gobeithio y gallwn fod o help i Alwenna ar yr adeg hon.

**GWELLHAD**
Mae rhai o'n haelodau wedi cael anffawd yn ystod yr haf, gyda Mrs Enid Morris a Mrs Mary Lewis wedi torri esgyrn wrth ddisgyn. Roedd yn dda gweld y ddwy yn gwella ac o gwmpas unwaith eto.

**CARTREF NEWYDD**
Croeso i Lanfyllin i Mrs Ann Jones sydd wedi symud o fferm Llawr y Cwm i Faes y Dderwen. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

**BABAN NEWYDD**
Llongyfarchiadau i Wynn a Rhian Jenkins, Stud Farm ar ddod yn Daid a Nain am y tro cyntaf. Ganed mab bychan i'w mab Rhys a'i bartner Emalie. Enw'r bychan yw Tomos Ieuan. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

### Cynfaen, Calcoed

**Y PUMED SUL**
Gyda phum Sul ym mis Awst eleni, penderfynwyd cynnal "Moliant y 5ed Sul / 5th Sunday Praise", oedfa fer ddwyieithog – heb bregeth! – gyda darlleniadau, gweddi a'r cyfle i ganu, gyda mwgwd, am y tro cyntaf ers talwm. Diolch i Geraint Roberts am gyfeilio. Am y tro cyntaf ers mis Mawrth 2020 hefyd, cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a chacen – diolch i Karen am baratoi ar ein cyfer, gan sicrhau ein bod yn dilyn y rheolau presennol, ac i Tati am y cacennau ychwanegol! Roedd pawb wedi mwynhau cymaint fel y gofynnwyd am gael canu un emyn olaf ar ôl y paned. Y gobaith yw y byddwn yn cynnal rhywbeth tebyg bob tro y bydd yna bumed Sul yn y mis. Bydd yr un nesaf ar 31 Hydref.

Dyma oedd Sul olaf Tati a Henry gyda ni am gyfnod gan fod angen iddynt hedfan yn ôl i Frasil am ychydig fisoedd am fod tad Tati yn bur wael. Mae ein cofion a'n gweddïau yn mynd gyda hwy.

**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

### Preswylfa, Cyffordd Llandudno



**PRIODAS**
Ar brynhawn dydd Sul Awst 8fed yn y Beverley Barn, East Riding priodwyd Amy Garstang, merch Paul a Llinos Garstang gydag Alex Russell. Cafwyd amser hyfryd yn dathlu gyda'r pâr ifanc. Dymuniadau gorau i Mr a Mrs Russell-Garstang yn eu bywyd priodasol yn Beverley.

**GOHEBYDD .**
EIRIAN JONES



### Salem, Rhyd y Foel

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Cadi Mai Pegg ar lwyddo gyda theilyngdod yn arholiad Gradd 2 ar y ffliwt a'n dymuniadau gorau iddi ym mlwyddyn 8 yn Ysgol y Creuddyn. Hoffem hefyd longyfarch Beth Megan Roberts ar ei llwyddiant yn yr arholiadau AS, gan ddymuno'n dda iddi hithau yn ei blwyddyn olaf yn Ysgol y Creuddyn.

**PANED A SGWRS**
Yn dilyn llacio ychydig ar y cyfyngiadau, pleser mawr i ni yw cael ymuno unwaith eto am baned a sgwrs yn y festri yn dilyn yr oedfa er ei bod yn hanfodol dilyn y canllawiau priodol.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

### Pendref, Dinbych

**OEDFAON**
Eithaf distaw fu hi ym Mhendref yn ystod yr haf ond ym mis Gorffennaf cawsom oedfaon bendithiol dan arweiniad Enid Mair Davies, Eglwysbach a'r Hybarch E Bernard Thomas, Trefnant. Gofalwyd am y ddau Sul arall gan bedwar o'n haelodau sef Hywel Evans, Gwyn Williams, Elfed Evans a Medwyn Jones a mawr yw ein diolch iddynt. Diolch i Vera Savage am gyfeilio ac i Medwyn am ei waith fel blaenor.

Ein harferiad yn nhref Dinbych ym mis Awst yw cynnal oedfaon undebol gyda gwasanaethau yn y Capel Mawr, Capel Lôn Swan, Capel y Fron a Phendref. Yn anffodus oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ynglŷn â niferoedd ac ati penderfynwyd peidio â chynnal oedfa yn ein capel ni y tro hwn. Daeth cyfle unwaith eto i gynnal gwasanaeth ym Mhendref ar Fedi'r 5ed, dan arweiniad Enid Mair Davies.

**COFION**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i'n holl aelodau sydd am wahanol resymau yn methu bod gyda ni.

**GOHEBYDD .** MARY JONES

### Saron, Bethel, Arfon

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at ein cyd-aelodau Beryl, Dafydd a Morlais gan obeithio eich bod chi oll yn teimlo ychydig yn well erbyn hyn.

**GOHEBYDD .** RJ

### Ardal Bathafarn

**DYMUNIADAU GORAU**
Pob dymuniad da i Olwen Griffiths a hefyd Val, Tŷ Bathafarn, ill dwy wedi dod adref o'r ysbyty ac yn cryfhau. Ein cofion anwylaf atoch ac at Lorna Wynne, Gretta Davies a Gwyn Atkinson.

**OEDFAON**
Oherwydd y pandemig, ni chawsom gyfle eleni i ymuno mewn oedfaon undebol yn nhref Rhuthun ym mis Awst. Serch hynny da yw cael agor drysau Capel Bathafarn ar ôl yr haf.

**ER COF ANNWYL**
Cofiwn yn ddiolchgar am gyfraniad arbennig Ifor Parry, Tŷ Ucha'r Llyn, Gwyddelwern, un a fu'n weithgar yn ei gapel a sawl maes arall. Rhoddodd Ifor ei fywyd i wasanaethu ac, fel y dywedwyd yn ei angladd, nid yr un lle mo Edeyrnion ar ôl ei golli. Soniwyd hefyd yn ei deyrnged am ei hoffter o blant ac ieuenctid:

"Sefydlodd Glwb Ieuenctid yn y Church House ac fe arweiniodd hynny at sefydlu Cwmni Drama yng Ngwyddelwern. Bu'n gadeirydd ar bwyllgor Gŵyl Ddrama Corwen am dros ddeng mlynedd ar hugain. Roedd cau Pafiliwn Corwen yn loes i Ifor; roedd wedi bod mor weithgar fel prif stiward yno mewn dawnsfeydd, cyngherddau, gwyliau ac wrth gwrs Cneifio Corwen. Bu'n stiward am flynyddoedd ym mhrif fynedfa'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yno y daeth Menna ac yntau i adnabod myrdd o gyfeillion ar draws Cymru. Cafodd ei urddo i'r Wisg Las gan Orsedd y Beirdd fel cydnabyddiaeth o'i waith i'r Eisteddfod



a'r gymuned ac roedd hefyd yn aelod o orsedd Eisteddfod Powys.

"Bu'n gynghorydd plwyf ac yn ddiwyd iawn yn sicrhau bod y pentref yn cael ei gadw'n ddestlus. Ymgymerodd â'r swydd o ofalu am y fynwent; fo oedd yn gyfrifol am leoli'r beddau a hefyd am gadw'r fynwent yn daclus. Enillwyd gwobr y Fynwent Daclusaf am ei waith ac roedd ei sied yno yn werth ei gweld, popeth yn ei le a lle i bopeth. Roedd o hefyd yn dringo tŵr yr eglwys yn wythnosol i weindio'r cloc. Doedd dim syndod fod Menna yn dweud ei fod yn byw yn y fynwent!

"Roedd Ifor yn ŵr bonheddig ac egwyddorol. Roedd ganddo amser i bawb."


Mae ein cydymdeimlad yn fawr â Nan a Gwyndaf, Dylan a Siân a'r teulu i gyd. Meddyliwn amdanoch yn eich hiraeth am un annwyl iawn.

### Ardal Glannau Maelor

**COFFÂD**
Ar 16 Gorffennaf, bu farw Nesta Hulmes, ganedig Hopwood, merch i'r diweddar William ac Ethel Hopwood a chwaer annwyl y diweddar Eifion. Roedd y teulu'n aelodau ffyddlon yng nghapel Bathafarn, Coedpoeth lle bu Nesta'n organydd. Ar ôl i Bathafarn gau yn 2012 ymunodd hi â chapel Disgwylfa, Coedpoeth. Ganwyd Nesta yn Wrecsam ym Mai 1941 ac ar ôl mynychu Ysgol Ramadeg y Merched, Grove Park, fe'i hyfforddwyd yn Ysgol Nyrsio Strathalyn, Rossett ynghyd â thair blynedd o hyfforddiant ymarferol yn Ysbyty Coffa Wrecsam. Bu'n gweithio yn adran brys yr ysbyty ac ymhen amser fe'i dyrchafwyd yn Brif Nyrs. Yn ddiweddarach fe weithiodd hefyd fel nyrs ysgol a nyrs gymunedol. Priododd â Peter yn 1967 yng nghapel Bathafarn, a'r flwyddyn wedyn fe anwyd eu merch Cathy. Roedd Nesta'n gefnogol iawn i achosion da yn lleol a bu'n aelod brwd hefyd o gymdeithas Gymraeg 'Y Felin' yng Nghoedpoeth. Roedd Nesta'n ffrind arbennig i lawer, yn meddu natur garedig, yn llawn brwdfrydedd a phob amser yn barod ei chymwynas. Roedd yn wraig a mam arbennig a bydd colled enfawr ar ei hôl.

**GOHEBYDD .**
CATHY WILLIAMS

# George M. Ll. Davies



### *gan y Parchedig Philip Barnett*

Ar achlysur fy ymadawiad â Llanrwst ar ôl bron i ddeng mlynedd yn weinidog capel Horeb, cefais lyfr yn anrheg gan un o'n haelodau. Ei deitl oedd 'Pilgrim of Peace' – hanes George M. Ll. Davies, a adwaenid fel Heddychwr Mawr Cymru. Llyfr Saesneg oedd hwn ond, wrth ei ddarllen, sylweddolais fod hanes yr heddychwr ar gael hefyd yn Gymraeg, mewn dwy gyfrol o waith y diweddar Barchedig E H Griffiths, enw adnabyddus i bawb ohonom. Felly chwiliais am y cyfrolau hynny yn ogystal, ac mae stori'r dyn yma wedi fy swyno'n llwyr.

Ganed George M. Ll. Davies yn Lerpwl ym 1880. Yn ystod ei yrfa bu'n filwr, gwrthwynebydd cydwybodol, rheolwr banc, aelod seneddol, gweinidog gyda'r Hen Gorff ac, yn anad dim, yn gymodwr.

Ym 1908 roedd Haldane, y Gweinidog Rhyfel, yn apelio ar ddynion i ymuno â'r Tiriogaethwyr, fel y gellid osgoi'r angen i gyflwyno consgripsiwn. Fe ymatebodd George yn gydwybodol a chafodd gomisiwn fel is-gapten yn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, er gwaethaf gwrthwynebiad cryf ei fam. Serch hynny, yn fuan wedyn, cafodd ei daro gan yr argyhoeddiad ffrwydrol iddo fradychu Crist wrth wneud hyn ac ar ôl cyfnod hir o waeledd fe ymddeolodd o'i gomisiwn gyda'r Tiriogaethwyr.

Fe'i penodwyd yn nes ymlaen yn Ysgrifennydd ar Ymddiriedolaeth Dai a Chynllunio Tref, elusen oedd â'r nod o sicrhau gwell tai i werin Cymru. Aeth ati hefyd i astudio'n fanwl eiriau Crist o'r newydd, ac ufudd-dod llwyr i orchmynion Crist a reolai ei fywyd o hynny ymlaen.

Yn Rhagfyr 1914 daeth cwmni o heddychwyr ynghyd yng Nghaergrawnt i ffurfio Cymdeithas y Cymod a phenodwyd George yn ysgrifennydd cynorthwyol. Yn ogystal â chyflawni swydd weinyddol, byddai'n mynd weithiau i ofalu am droseddwyr ifanc anodd iawn o slymiau Llundain mewn plas yn Melton Mowbray a oedd dan nawdd Cymdeithas y Cymod. Dechreuodd George hefyd ar genhadaeth hedd a siarad yn gyhoeddus. Yn fuan iawn daeth ei ryddid i ben a chafodd ei restio gyda nifer o'i ffrindiau. Treuliodd y rhan fwyaf o'r ddwy flynedd nesaf yn y carchar.

Ar ôl ei ryddhau aeth i fyw i heddwch Nant Ffrancon. Roedd pethau'n ddrwg ar y pryd rhwng chwarelwyr a'r meistri ac fe weithredodd fel cymodwr. Ym 1923 derbyniodd wahoddiad i sefyll yn yr etholiad cyffredinol am sedd Prifysgol Cymru.

Fel Heddychwr Cristnogol y safodd a hynny yn fuddugoliaethus. Nid dyn sefydliad, na phlaid nac enwad ydoedd; amlygodd ei athrylith arbennig wrth wneud cyfeillion o bob math o bobl, o droseddwyr i wladweinwyr. Wedyn ym 1929 cymerodd ofal dwy eglwys yn Nhywyn a'r cylch. Yn ogystal fe ddaeth yn Gaplan i Fudiad Gwersyll i Fechgyn Cymru ac, yn y man, cafodd ei ordeinio gan y Methodistiaid Calfinaidd.

Dyma oedd cyfnod helynt mawr Tom Nefyn a oedd bryd hynny yn weinidog yn y Tymbl. Gwrthdaro rhwng yr hen ryddfrydwyr a'r elfen sosialaidd a phasiffistaidd newydd oedd y tu ôl i'r storm. Safodd George yn gefn i Tom Nefyn bob cam o'r ffordd.

Yn y man daeth yn rhyfel eto. Er ei fod erbyn hyn yn 59 oed, nid eistedd yn ôl mewn blinder a wnaeth ond ymdaflu'n fwy gegnïol nag erioed i greu heddwch ac ynysoedd o obaith, gan weu cyfeillion o'i gwmpas.

Wedi'r rhyfel ym 1946 aeth i fyw yn Nolwyddelan ac yno hefyd gwyddai pawb amdano fel gŵr tyner iawn. Dioddefai George ysbeidiau o iselder ysbryd ar hyd ei oes ac fe ddychwelodd yr hen elyn eto mewn grym: bu farw yn Ysbyty Dinbych yn 69 mlwydd oed. Rhedodd yrfa faith a byw yn angerddol.

Beth allwn ni ei ddysgu o hanes George M. Ll. Davies? Yn bersonol ni chefais fy hun erioed mewn sefyllfa lle cawn fy ngorfodi i benderfynu a fyddwn yn sefyll fel heddychwr ai peidio. Ond mae'n hanfodol i bob Cristion ystyried mewn rhyw ffordd sut i ymateb i'r creulondeb sy'n digwydd yn y byd y dyddiau yma. Yn ôl yr ystadegau mae 40 o ryfeloedd yn digwydd ar hyn o bryd ar draws y byd.

Drwy ei ffydd a'i ymrwymiad i'r Efengyl fe ddangosodd George Davies esiampl. Mewn darlith yn y Tymbl ym 1980, aeth Gwynfor Evans mor bell â'i gymharu â Sant Ffransis o Assisi "nad yw'n debyg fod neb mewn hanes erioed wedi gwneud ymgais mwy difrifol nag ef i efelychu bywyd Crist a chyflawni gwaith Crist…Gwelwn ni yn ein cymdeithas fateryddol a diwydiannol ni yng Nghymru gymar i Ffransis." Ei ffydd a'i ddylanwad – dyna'i waddol.

# GAIR BACH

*gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis*



## DRAIN AC YSGALL

'Mieri lle bu mawredd' oedd disgrifiad Ieuan Brydydd Hir o Lys Ifor Hael, un o brif noddwyr beirdd fel Dafydd ap Gwilym yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Nid yr Ieuan Brydydd Hir o'r bymthegfed ganrif oedd hwnnw ond offeiriad o fardd o'r ddeunawfed ganrif o'r enw Evan Evans a adwaenid wrth yr un enw barddol. Bedwar can mlynedd wedi marw Ifor ap Llywelyn, wrth weld adfeilion ei lys ym Maesaleg ger Casnewydd meddai Evans, 'gwael yw'r gwedd' a 'drain ac ysgall mall a'i medd'.

Daeth geiriau'r englyn am y 'mieri lle bu mawredd' i gof lawer gwaith wrth i bobl weld y modd y dirywiodd adeiladau o sefydliadau cyfarwydd, yn cynnwys llu o gapeli ac eglwysi ynghyd â cholegau diwinyddol ac enwadau.

Ond nid peth newydd yw hyn, fel y gwelwn o ddarllen Llyfr Galarnad yn yr Hen Destament. Ynddo, sonnir am y newid byd a ddaeth ar Jerwsalem a'i phobl. Cymaint y dirywiad a ddilynodd y cefnu a fu ar Dduw a'i ffyrdd nes bod pobl ddieithr yn gwawdio Jerwsalem: 'Ai hon yw'r ddinas a gyfrifid yn goron prydferthwch, ac yn llawenydd yr holl ddaear?' (Galarnad 2:15).

O feddwl am Gymru'r unfed ganrif ar hugain, hawdd y medrwn ninnau ofyn, 'Ai hon …a gyfrifid yn goron prydferthwch?' Ai hon yw'r wlad a welodd ddiwygiadau ysbrydol nerthol? Ai hon yw'r genedl a anfonodd genhadon lu i rannu'r Efengyl? Ai hon yw'r genhedlaeth a gyll bob gobaith am adfywiad i eglwys Iesu Grist?

Yng nghanol y gofid a'r tristwch mae gan y Llyfr hwn obaith i bawb sy'n gweld y mieri a'r drain a'r ysgall ac yn ofni bod y Ffydd yn gorwedd yn garnau. 'Nid oes terfyn ar gariad yr Arglwydd, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau' (3:22). Credwn hynny, ceisiwn drugaredd Duw a disgwyliwn ei fendith.





# O'r Pen Yma

## gan Angharad Tomos

Rhyw fis yn ôl oedd hi, pan sylweddolodd y gŵr a fi fod tymor newydd wedi cychwyn, a ninnau heb wneud llawer o'r pethau roedden ni wedi bwriadu eu gwneud dros yr Haf.

"Roedden ni i fod i ddringo Mynydd Mawr," meddwn, fel enghraifft o un syniad aeth i'r gwellt.

"Beth am wneud hynny, fory ta?" gofynnodd, ac i ffwrdd â ni.

Mynydd Mawr, Mynydd Eliffant, Mynydd Grug – beth bynnag galwch chi o, dydi o mo'r mynydd difyrraf i'w ddringo. Mae gennych chi chwarter awr go dda o gerdded cyn cychwyn dringo. Cerdded i fyny llwybr digon serth ydi'r cwbl fedrwch chi ei wneud, does dim troadau, dim amrywiaeth yn y llwybr, a fedrwch chi ddim gweld y copa i'ch sbarduno ymlaen. Gwaith caled, undonog, felly – un droed o flaen y llall. Falle mai dyna pam nad oedd y gŵr wedi ei ddringo, er iddo wneud pob copa a llwybr arall yn y fro, yn enwedig ers y Clo.

Pam ei wneud o, felly? Does neb arall yn ei ddringo, ar wahân i bobl leol. Pob tro y byddaf arno, pobl leol ydi'r unig rai eraill i'w gweld ar y llwybr. Lai na thair milltir i ffwrdd, maen nhw'n dringo'r Wyddfa yn eu miloedd, ac yn ciwio i gyrraedd y copa.

Ond dyfalbarhewch, rhoi eich trwyn wrth y maen, a dal ati, ac mi ddowch i gopa Mynydd Mawr. A'r jôc ydi, mi gewch chi lawer gwell golyga o'r Wyddfa o fan hyn na bron o unman arall. Mae'r olygfa o Fynydd Mawr yn fendigedig – a dyna'r rheswm dros ei ddringo.

A dweud y gwir, tasech chi ond yn cerdded hanner ffordd, cewch eich gwobrwyo â golygfa go dda. Llyn Ffynhonnau yn disgleirio oddi tanoch, golygfa dda o Cilgwyn a Moel Tryfan, Waunfawr yn y pellter, Betws Garmon reit oddi tanoch a Sir Fôn ar y gorwel. Doedd hi ddim yn arbennig o heulog y diwrnod yr aethom ni, ond cawsom weld y rhain i gyd.

O fewn awr, roeddem ar y copa, a dyma fethu credu (unwaith eto) y fath harddwch oedd i'w weld. Y Wyddfa urddasol, Garn a Chrib Nantlle yn enbyd o hardd, a Garn Goch cyn yr Eifl a Llŷn tu hwnt. Onid ydym yn ffodus yn byw yng nghanol yr harddwch yma?

Daeth dafad atom i fusnesu, a dyma feddwl ei bod hi'n ddafad ddedwydd ei byd. Paned, a bisged, ac roedd ein cwpan yn llawn (yn ffigyrol ac yn ffeithiol!)

Mae hi'n anodd weithiau cael yr amynedd i ddal ati, i gychwyn tymor newydd, i wynebu tasg anodd, i wneud rhywbeth am y tro cyntaf, neu i wynebu diwrnod newydd – a mynd yn anos wnaiff hi wrth i'r dydd fyrhau. Ond o wneud hynny, fe gawn ein gwobr.

Dydi'r gwaith anodd ddim yn para am byth (er ei fod o'n ymddangos felly weithiau) a'n gwobr ar y diwedd ydi gwybod ein bod wedi cyflawni rhywbeth, a bod gorffwys i'w gael. Dyna ddysgais i y diwrnod yr es i dop Mynydd Mawr – a dyma i chi lun y ddafad!



# Capel Ni
### yn Eglwys Iesu

## Bethel, Prestatyn



**YMDDEOLIAD HAPUS**
Hoffem ddymuno ymddeoliad hir a hapus i Miss Jane Ellis, sydd wedi ymddeol o Ysgol y Llys wedi cyfnod o 43 o flynyddoedd yn gweithio yno. Cafwyd parti ar gae'r ysgol. Mae Jane wedi bod yn athrawes Ysgol Sul yma ym Methel am dros 40 o flynyddoedd ac rydym yn diolch iddi am ei gofal annwyl dros y plant ac am ei gwasanaeth i'r capel dros y blynyddoedd.

**BANC BWYD**
Mae'r rhoddion o fwyd ac arian i Fanc Bwyd Prestatyn wedi bod yn anhygoel. Diolch o galon i bawb sydd wedi bod yn cyfrannu.

**GWELLHAD BUAN**
Mae amryw o'n haelodau yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd. Mae Mrs Eluned Owen a Mrs Eirlys Davies wedi treulio amser yn yr ysbyty ond maent gartref erbyn hyn ac yn gwella. Cofiwn am bawb hefyd sydd heb ddychwelyd i'r capel eto am eu bod yn hunanynysu. Fe gofiwn am bob un ohonoch yn ein gweddïau.

**ER COF ANNWYL**



Cofiwn gyda diolchgarwch am Mr Islwyn Parry. Bu'n aelod ffyddlon iawn yng nghapel Gwaenysgor pan oedd yn agored a buom hefyd yn ffodus i gael ei gwmni yma ym Methel.

Dyma ychydig eiriau amdano gan ei ferch, Siân: *Pan fu farw Dad ar Orffennaf y 3ydd eleni, anfonodd ffrind caredig y llun uchod ata i, ac mae o'n dweud cyfrolau am Dad. Dyma roedd o'n ei fwynhau – sgwrs, cwmni a digon o chwerthin a hwyl. Efallai fod hynny'n deillio o'i blentyndod yng nghymdeithas glòs Gwaenysgor yn y 30au a'r 40au. Roedd yn fab i'r cigydd lleol a byddai'n mynd hefo'i dad yn y fan gig o amgylch y pentrefi cyfagos gan ddod i nabod pawb. Wedi blynyddoedd hapus yn Ysgol Ramadeg Llanelwy aeth i Brifysgol Aberystwyth a graddio mewn Cemeg. Yna bu'n athro yn Ysgol Uwchradd y Rhyl lle cyfarfu â Pat ei wraig. Roedd yn ddyn teg iawn a rhoddai bwyslais ar annog merched yn ogystal â bechgyn i astudio a mwynhau gwyddoniaeth.*

*Mwynhaodd ymddeoliad hir a phrysur a chael cyfle i deithio – roedd wrth ei fodd yn America yn arbennig. Am flynyddoedd byddai'n rhoi sgyrsiau bywiog i gymdeithasau lleol am hanesion ei ddyddiau fel athro ac am gymeriadau lliwgar ei blentyndod. Yn ôl y sôn, byddai llond y lle o chwerthin! Mae'r tŷ'n ddistaw iawn ar ei ôl o, ond mae'r hanesion, yr hwyl a'r chwerthin yn fyw iawn o hyd i'r teulu i gyd, ac i lawer o bobl eraill oedd yn ei nabod mae'n siŵr.*

**YR YSGOL SUL**
Mae'r Ysgol Sul wedi ail gychwyn ar ôl seibiant dros wyliau'r haf a dymunwn yn dda i'r plant wrth iddynt ddychwelyd i ddosbarth newydd yn yr ysgol. Pob hwyl i Alys Haf a Gethin wrth iddynt ddechrau eu gyrfa newydd yn Ysgol Uwchradd Glan Clwyd.

## Pendref, Yr Wyddgrug

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Mae un o'n haelodau sef Mrs Meiriona Griffiths wedi dathlu ei phen-blwydd yn naw deg oed. Hoffem ni i gyd fel aelodau ddanfon ein llongyfarchiadau iddi. Rydym yn falch iawn hefyd ei bod yn gwella ar ôl cael damwain yn gynt yn y flwyddyn pan dorrodd ei chlun.

**CYDYMDEIMLO**
Gyda thristwch mawr y derbyniodd aelodau Pendref y newydd am farwolaeth y Parchedig J. Bryn Jones a chydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu oll.
**GOHEBYDD .** RICHARD FRANCIS JONES

## Ebeneser, Dolgellau

**GWELLHAD**
Anfonwn ein cofion at Wyn Meredith yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd wedi iddo syrthio yn ei gartref ym mis Gorffennaf. Mae bellach wedi symud i Ysbyty Tywyn ac yn araf wella. Hefyd rydym yn meddwl am y Chwaer Eluned Williams yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Maelor Wrecsam ym mis Mehefin. Deallwn y bydd yn parhau gyda rhagor o driniaeth yn nes ymlaen. Dymunwn wellhad llwyr a buan i'r ddau ohonynt.

**FFARWELIO**
Wedi cyfnod o bum mlynedd yn ein mysg, ar y 10fed o Awst daeth yn amser ffarwelio â'r Diacon Stephen ac Angela Roe. Cynhaliwyd oedfa arbennig yn Ebeneser ar y 1af o Awst ac fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'u holl wasanaeth, cyflwynwyd iddynt rodd ariannol ar ran yr aelodau ynghyd â llun hyfryd o Gader Idris – sef yr olygfa roeddent yn ei gweld yn ddyddiol o'u cartref yn Nolgellau. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Stephen ac Angela yn Swindon, gan obeithio'n fawr y cawn eu gweld pan ddônt yn ôl i ymweld â Dolgellau.

**CYDYMDEIMLO**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Hugh Humphreys a'r holl deulu yn eu profedigaeth ar y 15fed o Awst o golli Marion, gwraig annwyl Hugh a mam Elinor, Carys, Alwyn, Valmai ac Anwen. Bu'r gwasanaeth angladdol yng nghapel Ebeneser ar y 1af o Fedi dan ofal y Chwaer Eluned Williams ac yna i ddilyn ym mynwent y dref.

**NEWID AELWYD**
Dymuniadau gorau i Jane a Bryngwyn Thomas sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar o Glanrhyd, Dolgellau i Llwyn View. Pob bendith a hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

**OEDFAON**
Rydym yn parhau i addoli yn y capel yn wythnosol gan ddechrau'r flwyddyn gyfundebol newydd ar y 5ed o Fedi gydag Oedfa Cymun.

**GOHEBYDD .**
BERYL NORGROVE



## Ebeneser, Treuddyn

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Eiddwen Jones ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf. Bellach maent yn deulu o bum cenhedlaeth, peth anghyffredin iawn a rhywbeth sydd wedi dod â hapusrwydd mawr i'r teulu.



Yn y llun gwelir y newydd ddyfodiad Noah Aled ym mreichiau ei hen hen nain, Mrs Beti Jones, ac yn y cefndir o'r chwith i'r dde ei fam Alisha Blomley, ei daid Euryn Jones a'i hen nain Eiddwen Jones. Dymunwn bob bendith i Noah Aled a'r teulu i gyd.

**BEDYDD**
Yn ein gwasanaeth ar y 6ed o Fedi, bedyddiwyd Sophie Megan Evans gan ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Roedd nifer da o deulu a ffrindiau yn y gwasanaeth, gan gynnwys Gweryl Hughes, nain y fechan, ei thaid Howard Hughes a'i thaid a'i nain ar ochr ei thad sef Ieuan ac Eileen Evans. Yn y llun, gwelir Sophie gyda'i rhieni Dewi a Laura Evans a'i brawd Matthew.



**CYFARFOD PREGETHU**
Cynhaliwyd ein Cyfarfod Pregethu eleni ar nos Sul, Medi 19eg o dan ofal y Parchedig Marc Morgan.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

## Eglwys Unedig Colwyn

**ZOOM**
Oherwydd y pandemig nid oedd yn bosib cynnal gwasanaethau am fisoedd lawer. Braf oedd cael y gwasanaethau drwy gyfrwng Zoom a diolch i bawb a fu'n gyfrifol am eu trefnu.

**CYD-ADDOLI**
Cawsom wahoddiad i ymuno â'n cyfeillion yn Ebeneser, Hen Golwyn dros fisoedd Mehefin a Gorffennaf. Diolch iddynt am eu croeso cynnes ac mae hefyd yn braf iawn cael eu croesawu hwythau atom i Horeb yn ystod mis Medi. Diolch hefyd i aelodau Hebron, Hen Golwyn am eu croeso yn ystod mis Awst ac am y trefniadau i gadw pawb yn ddiogel.

**FFARWELIO**



Ar nos Wener 16 Gorffennaf cynhaliwyd cyfarfod i ffarwelio â'n gweinidog y Parchg Ddr Trevor Hoggard, sydd erbyn hyn wedi dychwelyd at ei deulu yn Seland Newydd.
Cyflwynwyd anrhegion iddo gan y Parchg Jennie Hurd ar ran Cylchdaith Cymru, Llinos Garstang ar ran Ardal Dyffryn Conwy a Hywel Evans ar ran Ardal Dyffryn Clwyd. Diolch i Mrs Eira Jones, Llanrwst am ei gwaith wrth yr organ.

**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

## Ebeneser, Trefor, Môn

**DATHLU**
Llongyfarchiadau i Mrs Mair Jones ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ganol Awst. Mae Mrs Jones bellach wedi ymgartrefu yng nghartref y Rhos, Malltraeth. Anfonwn ein cofion ati.

**GWELLA**
Rydym yn falch bod Gareth Thomas wedi cael dod adref o'r ysbyty ac yn gwella'n dda. Bu Mrs Margaret Owen yn yr ysbyty am gyfnod hefyd ac mae'n dda iawn gennym wybod ei bod hithau yn well.

**PEINTIO**
Mae tu allan y capel yn edrych yn daclus iawn ar ôl cael ei beintio yn ddiweddar. Diolch i bawb a drefnodd i'r gwaith gael ei wneud ac i'r peintwyr am eu gwaith da.

**CROESAWU**
Ar y nos Sul cyntaf ym Medi pleser oedd cael croesawu'r Parchedig Philip Barnett atom a hynny am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo am gymryd rhai o Suliau'r Parchedig Gwynfor Williams. Cawsom bregeth amserol iawn ganddo a hyfryd iawn oedd ei glywed yn canu'r organ, sydd wedi bod yn segur ers misoedd. Edrychwn ymlaen at gael ei gwmni eto ym mis Tachwedd.

**GOHEBYDD .**
CARYS THOMAS

# O'R LLAN

*gan y Canon Idris Thomas*

## CYFNOD O STRAEN

Daeth tri adroddiad trist i'm sylw yn ddiweddar. Yn wir, cefais gryn ysgytiad o ddarllen y ddau gyntaf. I ddechrau, daeth adroddiad i'm sylw o Ysbyty Sant Luc yn Llundain, elusen sy'n darparu cyngor a gofal clinigol i offeiriaid a'u teuluoedd. Dywed Dr Gary Bell, seiciatrydd yn yr ysbyty, fod cynnydd aruthrol wedi bod yn nifer yr offeiriaid oedd gwir angen gofal seicolegol. Yn neg wythnos gyntaf 2021 darparwyd 146 o apwyntiadau seicolegol i offeiriaid a'u teuluoedd. Dyma'r gofyn mwyaf a welsai'r meddyg hwn erioed. Beth oedd yn achosi'r fath straen? Yn ei farn ef roedd y wasgfa ar offeiriaid yn ystod y pandemig o leiaf yn rhannol gyfrifol, gyda'r disgwyliadau i ddarparu gwasanaethau ar-lein ac yn y blaen yn ychwanegol at eu rôl gweinidogaethu traddodiadol. Ar yr un pryd wynebwyd lleihad dirfawr yn adnoddau ariannol a dynol y plwyfi – fel nad yw efallai yn syndod gweld y fath gynnydd mewn pryder ac iselder a hynny'n arwain mewn rhai achosion at sefyllfaoedd peryglus.

Er hyn oll, roedd prif weithredwr Ysbyty Sant Luc wedi ei chalonogi o weld awydd offeiriaid i siarad yn agored am iechyd meddwl. Ychwanegodd fod parodrwydd Archesgob Caergaint i sôn yn gyhoeddus am ei angen ef i gael cefnogaeth seiciatryddol wedi galluogi offeiriaid eraill i siarad yn gyhoeddus am eu sialensiau hwythau. Bu cyfnod Covid yn anodd iawn i bobl mewn llawer maes, gan gynnwys offeiriaid a gweinidogion, ond fel y dywedodd un offeiriad: "rhaid ar bob cyfrif i mi dderbyn fod yr amser wedi bod yn un rhyfedd a bod y teimladau oedd gennyf yn rhai normal".

## CYFNOD O NEWYN

Cadarnhaodd elusen y banciau bwyd fod teuluoedd wedi mynd yn newynog ac wedi eu gwthio i galedi dybryd oherwydd y pandemig. Mae llawer o ffeithiau ysgytwol yn yr adroddiad State of Hunger a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Trussell ym mis Mai eleni. Aseswyd effaith y cyfnodau clo ar ddefnyddwyr y banciau bwyd a nodwyd rhai o'r ffactorau sy'n arwain at fethu cael bwyd digonol sef bod ar incwm isel, yn ifanc neu yn ddi-waith, bod ar eich pen eich hun, mewn iechyd gwael, cael eich adnabod fel lleiafrif ethnig. Yn ôl cyn gynghorydd llywodraeth Prydain ar bolisi cymdeithasol, y Farwnes Louise Casey, mae modd i'r llywodraeth ddod â thlodi i ben ac nid oes raid i bethau fod fel hyn. Brysied y dydd felly.

## YN ENEIDIAU UNEDIG

Ym mro chwarelyddol fy mebyd, sylwais pan oeddwn i'n blentyn fod mwy o ddynion yn mynychu'r gwasanaethau hwyrol ar y Suliau o'u cymharu â'r gwasanaethau boreol. Hwyrach am eu bod yn hoffi cael pregethau da gan fod mwy o amser gan yr offeiriad plwyf i'w traddodi. Ers tro byd yn yr Eglwysi, mae'n ffaith fod merched yn fwy niferus na'r dynion. Eleni gwnaed arolwg gan y Canon Leslie Francis a'r Parchedig Andrew Village, y ddau ohonynt yn Athrawon Diwinyddol, ac roedd yr ymatebion yn awgrymu'n bendant fod dynion yn fwy anfodlon na merched i ddychwelyd i'r Eglwysi yn dilyn y pandemig. Roedd y dynion yn yr Eglwysi yn fwy beirniadol o ymateb yr Eglwys i'r pandemig: mwy o ddynion nag o ferched yn credu bod yr Eglwys wedi mynd yn rhy bell yn cau addoldai ac y dylasent fod ar agor yn ystod y pandemig doed a ddêl; mwy o ferched yn meddwl mai da o beth oedd cael gwasanaethau crefyddol ar-lein o gartrefi clerigion wrth gymharu â'r dynion. Y cwestiwn yw, a fyddai'r holl wahaniaethau barn hyn yn cyfrif o gwbl, gan mai dynion oedd yn y lleiafrif yn ein haddoldai prun bynnag cyn y pandemig. Englyn Einion Evans sef Brawdoliaeth sy'n mynnu dod i'r meddwl:-

Na ad i ni fyw'n rhanedig – ein Iôr,
ond gwna ni'n garedig
a llon, yn ddynion heb ddig,
yn eneidiau unedig.



# Wrth fynd heibio

*gan William H. Owen*





Daeth ymdrech lew y darlledwr Huw Edwards i warchod organau ein sefydliadau crefyddol i sylw'r *Times* yn ystod yr haf. Braidd yn hwyr, efallai, ond gwell hwyr na hwyrach. Ar y pryd roeddwn newydd weld fod cais gerbron Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd i symud organ hynafol un o eglwysi gwag Bangor i dde orllewin Lloegr. Mae Eglwys Dewi Sant, Glanadda, wedi cau er saith mlynedd a'r organ yn dal yn ei lle.

Erbyn hyn mae caniatâd wedi ei roi i'w datgymalu a'i chludo o Fangor i gapel coffa Mary Harris ym Mhrifysgol Caerwysg (Exeter yw hwnnw rhag ofn eich bod yn debyg i mi yn drysu gydag enwau Cymraeg gwahanol Gaer-ydd Lloegr!). Gyda'r cais cynllunio yn enw David Davies o Gaerwysg roedd crynodeb o hanes difyr yr organ bib.

Cwmni nodedig William & Hill, Llundain gafodd y gwaith o'i gwneud. Roedd yr eglwys wedi ei chodi yn 1888 ar dir yn perthyn i'r Arglwydd Penrhyn. Elizabeth Atcherley Symes o deulu Holt, perchnogion llongau o Lerpwl, a dalodd am yr adeilad er cof am Henry Thomas Edwards (1837-84), Deon Bangor. Y teulu hefyd a brynodd yr organ newydd yn 1906. Roeddynt yn hoff o'r ardal ac yn dod yno ar eu gwyliau.

Yn 1995 cafodd ei hadfer gan Eric Newbound o Benmaenmawr, gwneuthurwr organau oedd wedi gweithio i'r cwmni a ddilynodd William & Hill. Felly, roedd parch wedi bod iddi nes i'r eglwys gau a chanmoliaeth i'w safon gerddorol.

Pan ofynnais i Robin Jones, un o olygyddion y cyhoeddiad hwn, a oedd wedi cyfeilio yn Eglwys Glanadda ryw dro cefais ateb cadarnhaol a thystiolaeth o safon yr offeryn. Mae rhyw David Davies o Exeter wedi gofyn am symud yr organ i gapel yno, meddwn wrth Robin. Pwy fyddai hwnnw, medda ti? "David Davies, Bethesda gynt, tybed?" oedd ei gynnig. Wedi ychydig o bwysau ar yr hen gyfaill Google daeth enw David Davies i'r golwg o dan Abaty Buckfast yn Nyfnaint a gwybodaeth amdano. Mae'n un o organyddion yr Abaty a hefyd yn organydd yng Nghaerwysg. Hwn yn sicr oedd y dyn a llwyddais i gysylltu ag ef a chael sicrwydd o hynny.

Daeth David i amlygrwydd fel organydd yn fachgen ifanc iawn. Pan oedd yn rhoi datganiad ar organ eglwys Llanfairfechan yn nechrau'r nawdegau roedd athro cerdd o goleg Eton yno. Drwy ei berswâd ef llwyddodd y bachgen o Ddyffryn Ogwen i wneud cais i astudio cerdd yn y coleg. Yno roedd yn chwarae organ eu capel. Aeth ymlaen i Rydychen ac yna i Brifysgol Iâl yn America cyn dychwelyd a chael gwaith cyn hir yn Abaty Buckfast a chapel Prifysgol Caerwysg.

Heb wybodaeth David o safon organ Eglwys Dewi Sant ym Mangor does wybod beth fyddai wedi digwydd iddi. Mae digon o enghreifftiau o offerynnau tebyg yn cael eu taflu ar y domen sbwriel, wedi difetha oherwydd esgeulustod mawr ar ôl cau capel neu eglwys. Ar y llaw arall, mae rhai wedi eu hachub ac wedi cael cartref mewn mannau pell, fel hon fydd yn cael lloches rhyw dri chan milltir o'i hangorfa wreiddiol.

O leiaf bydd yn cael ei defnyddio, a bysedd Cymro o'i hardal gynhenid fydd yn tynnu'r nodau pêr ohoni.

Gwasanaeth Ffarwelio'r Parchg Trevor Hoggard yn Horeb Bae Colwyn, 16 Gorffennaf







# Gair o Ynys Môn – ac America!

### *gan Edward Morus Jones*



***Robin, un o gyd-olygyddion y Gwyliedydd, ofynnodd i mi rai dyddiau yn ôl: 'Edward, pan fyddi di'n treulio amser yno efo Mary, sut wyt ti'n gweld pethe yn America yn ystod y cyfnod diwetha ma?'***

Roedd y cwestiwn – gan ffrind sydd 'ar yr un donfedd' â mi – yn haeddu ymateb. Mentraf dros ddau gyfraniad byr gynnig ychydig o sylwadau. Gobeithio y byddan nhw o ddiddordeb i o leiaf rai ohonoch chi ddarllenwyr y *Gwyliedydd*.

Rhaid sylweddoli un ffaith sylfaenol ar y dechrau, sef mor fawr yw'r Unol Daleithiau (U.D.) – mae'n anferthol o fawr! Pan fyddaf yno efo Mary, fy ngwraig, rydan ni'n byw yn Nhalaith Pensylfania sydd ar yr 'ochr yma' i'r U.D. o Gymru. I Bensylfania ym 1682 yr hwyliodd y Crynwyr cyntaf o Feirionnydd efo William Penn ei hun. Criw Dolgellau oedd y rhain, gyda'r ail griw, criw y Bala (ac yn eu plith hynafiaid uniongyrchol fy Mary innau) yn dilyn ym 1698. Chwilio am fywyd newydd o gyrraedd gorthrwm meistri tir ac erledigaeth gwladwriaeth ryfelgar yr oeddynt. Yno caent ryddid i addoli ac i sefydlu gwladwriaeth Gymraeg newydd. Dyma gyfnod nofelau grymus Marian Eames, wrth gwrs, *Y Stafell Ddirgel* a *Y Rhandir Mwyn*. Ac wrth gwrs roedd hyn ganrif a hanner cyn i Gymry gynllunio i ymfudo i Batagonia.

Mae dinas Philadelphia, ym mhen dwyreiniol y dalaith fawr, yn un o ddinasoedd mwyaf yr U.D. Am gyfnod bu hon yn brifddinas y taleithiau a ffurfiai'r wlad bryd hynny. O gwmpas 'Philly' mae'r wlad yn frith o enwau Cymraeg. Gwn erbyn hyn am ardal cyfoethogion maesdref Bryn Mawr, am Merion (Uchaf ac Isaf!), Bala Cynwyd, Ffordd Fawr Penllyn, am Gwyned(d) Narberth a 'North Wales' i enwi dim ond rhai. Mae'n werth nodi hefyd mai Cymdeithas Gymreig Philadelphia, a sefydlwyd ym 1739, yw'r gymdeithas ethnig hynaf oll yn yr U.D.

Mae fy nghartref i a Mary yn Royersford, ryw awr i'r gorllewin o'r ddinas. Mae hon yn ardal ffyniannus ar lan Afon Schuylkill. Rwy'n amcangyfrif bod yna dros ddwsin o ganolfannau addoli Cristnogol yn y dref o ryw bum mil, a'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn cael cefnogaeth dda. Yn Eglwys y Bedyddwyr, Royersford, y mae Mary'n aelod gweithgar, a minnau gyda hi yn ceisio bod yn gyfaill 'ymarferol' i achos Iesu Grist. Mae hi'n eglwys gynnes, ysbrydol, un ryddfrydol ei naws. Mae hi'n eglwys sy'n awyddus i groesawu pawb, beth bynnag eu statws, cefndir, lliw, tueddiadau gwleidyddol a rhyweddol, pawb. Un peth sy'n fy nharo i, a hynny bron bob dydd. Mae'r eglwys hon, o dan arweiniad ei gweinidog newydd – merch ifanc annwyl, alluog – yn gwneud gweddïo, gweddïo dros eraill a thros ein gilydd yn gyson yn elfen LLAWER mwy amlwg nag a welwn ni yn gyffredinol yma yng Nghymru.

Dyma felly ran gyntaf fy ymateb i'r cwestiwn, sut rydw i'n gweld pethau yn America ar hyn o bryd. Mae ein America ni ein dau – yn 'Sir Drefaldwyn' (Montgomery County) ger Philadelphia – yn gyffyrddus-ddiogel, yn heddychol, gyda gwerthoedd cymdeithas Gristnogol yn amlwg drwyddi. A rhaid ychwanegu bod y mwyafrif llethol ohonom ni mor falch bod 'Cyfnod Trump' wedi gorffen! Ond mae yna hefyd U.D. arall yn awr yn yr unfed ganrif ar hugain, y mentraf sôn amdani hi y tro nesaf. U.D. yr anghyfartaledd sy'n parhau rhwng y dyn du a'r dyn gwyn, ac U.D y gagendor anferth rhwng yr unigolion arch-gyfoethog a thlodi'r miliynau eraill. Y cyfan mewn gwlad lle mae gan bawb yr hawl i gario gwn!

Tan y tro nesaf, pob bendith.






# Safle Treftadaeth Y Byd

### *gan Glyn Tomos*



Tydi pawb ddim yn gweld pethau neu yn gwirioni yr un fath. Dyna ddaeth i'm meddwl pan ddywedodd cyfaill wrthyf ei fod yn methu â deall pam bod Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi'i ddynodi'n Safle Treftadaeth UNESCO ym mis Gorffennaf eleni. Sut y gellir cyfiawnhau cael tomennydd llechi yn yr un grŵp ag atyniadau fel y Taj Mahal, Wal Fawr China a Fenis, meddai.

Ar un olwg mae'n hawdd deall ei ddadl. I nifer o bobl tydi tomennydd llechi ddim yn bethau prydferth ac atyniadol a dweud y lleiaf. Ar yr olwg gyntaf, eu hagrwch sydd yn taro rhywun, oherwydd y gwir ydyw mai rwbel diwerth ydy'r holl domennydd. Amcangyfrifir, ar gyfartaledd, fod yn rhaid clirio oddeutu ugain tunnell o rwbel am bob tunnell o lechi gorffenedig.

Wrth gwrs arwyddocâd Tirlun Llechi Gogledd Cymru yw'r hyn y mae'n ei gynrychioli. Mae'n rhaid mynd tu ôl i'r tomennydd a'r ponciau a deall yr hyn a roddodd fod i'r rhain yn y lle cyntaf. Wrth wneud hynny, fe ddown wyneb yn wyneb â hanes y miloedd fu'n llafurio'n galed ar wyneb y graig i grafu cyflog byw tra bod y perchnogion ar ben eu digon.

Er bod y diwydiant wedi gadael creithiau ar y tirwedd mae rhywbeth mawreddog ynddynt, ac yn sicr mae'r diwydiant wedi chwarae rhan bwysig yn ein hanes ac mae'r cymunedau sydd wedi tyfu o gwmpas y chwareli wedi cynorthwyo i gadw ein hiaith a'n diwylliant yn fyw.

Yn hanes Chwarel Dinorwig, dirywiad aruthrol sydd wedi bod yn sgil cau'r chwarel dros hanner can mlynedd yn ôl. Ar un llaw fe allwn ymfalchïo bod Chwarel Dinorwig wedi arwain at greu cymdeithas newydd o weithwyr a honno'n gymdeithas drwyadl Gymraeg, yn cyflogi miloedd yn ei hanterth (yn 1898 gweithiai tua 3,000 o ddynion yno), ac a arweiniodd at fri diwylliannol a chrefyddol nas gwelwyd o'r blaen. Ar y llaw arall mae sgil effaith dibynnu ar un diwydiant a'r newidiadau cymdeithasol mawr sydd wedi digwydd dros yr hanner canrif diwethaf i'w gweld yn amlwg wrth i'r gymdeithas lle'r arferid dweud bod 'pawb yn yr un gwch' ddiflannu. Bellach mae arferion newydd a ffyrdd o fyw gwahanol yn arwain at newid natur economaidd, diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol ein hardaloedd.

O ran derbyn y statws byd eang yma bydd yn ddiddorol gweld beth fydd ei effaith a'i ddylanwad ar yr ardal dros y blynyddoedd nesaf. Yn ddi-os bydd heriau mawr y bydd angen eu goresgyn, gan fod cymunedau Cymraeg yn mynd trwy gyfnod tyngedfennol am resymau sydd wedi eu hadrodd yn helaeth yn y wasg a'r cyfryngau.

Fel y gwyddom, mae i'r ardaloedd chwarelyddol hefyd hanes crefyddol cyfoethog iawn ac mae'n bwysig bod hyn yn cael ei amlygu yn y trafodaethau fydd ar y gweill dan arweiniad Cyngor Gwynedd dros y misoedd nesaf er mwyn cytuno ar gynllun gwaith i ddatblygu safle treftadaeth newydd Cymru.

# Sul yr Hinsawdd yn Saron, Bethel

Ar brynhawn dydd Sul y 5ed o Fedi, cynhaliwyd gwasanaeth *Sul yr Hinsawdd* yn Saron. Clywodd y plant am stondin Cymorth Cristnogol yn COP26 yn Glasgow, lle bydd llawer o gychod papur yn cael eu harddangos, hefyd am y criw o bobl ifanc sy'n mynd â model o gwch yno – hyn oll am ein bod ni i gyd yn yr un storm, ond ddim yn yr un cwch. Y gwledydd tlotaf sy'n dioddef fwyaf o achos newid hinsawdd er mai ni yn y gwledydd cyfoethog sydd wedi gwneud mwyaf i'w achosi. Mae gwybodaeth ddiddorol i'w chael yn https://www.yccn.uk/rise-to-the-moment a https://www.christianaid.org.uk/resources/get-involved/rise-moment-activity-pack

Dyma Charles, Tiegan a Cadi gyda'u cychod.




## Diolch

Diolchwn i'r Parchedig Trevor Hoggard a'r Diacon Stephen Roe am eu gwasanaeth a'u cyfeillgarwch, gan ddymuno'n dda iddynt at y dyfodol. Pob bendith. Diolch hefyd i Hywel Evans am y llun.

